# Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc) City and Guilds (Amser Llawn)

Mae cymhwyster Craidd Lefel 2 City & Guilds, Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwrs addysg bellach llawn amser sydd wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr 16+ sydd â diddordeb mewn gyrfa yn y Sector Iechyd, Cymdeithasol neu Ofal Plant.

Mae'r cymhwyster yn cynnwys ystod o unedau sydd i gyd wedi'u cynllunio i ddarparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithio mewn lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a bydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Mae'r cwrs yn cyflwyno dysgwyr i weithio yn y sector a sut i ddatblygu arfer effeithiol. Mae cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus yn cefnogi dilyniant i gyrsiau L3 o fewn Iechyd, Cymdeithasol neu Ofal Plant. Fel rhan o'r cymhwyster bydd dysgwyr yn cwblhau lleoliad gorfodol un diwrnod yr wythnos naill ai mewn lleoliad gofal plant neu iechyd a gofal cymdeithasol. I gymryd rhan mewn lleoliadau, mae'n ofynnol i bob dysgwr gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Byddwch yn astudio ystod eang o bynciau dros gyfnod o ddwy flynedd, a dangosir rhai o'r rhain isod.

- Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion, plant a phobl ifanc)
- Iechyd a lles (oedolion, plant a phobl ifanc)
- Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol
- Diogelu
- Iechyd a Diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol

## Gofynion Mynediad

2 TGAU gradd C neu uwch, yn ddelfrydol, i gynnwys Mathemateg a/neu Saesneg.

## Rhagolygon Gyrfa

Ar ôl cwblhau cymhwyster Craidd L2 yn llwyddiannus gall dysgwyr ddewis astudio:
Diploma Sylfaen ac Estynedig Lefel 3 CBAC mewn Gofal Plant NEU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a fydd yn caniatáu dilyniant mewn addysg uwch.

Mae hwn yn gymhwyster llawn amser sy'n cael ei redeg dros flwyddyn.

## Modiwlau’r cwrs

Yn ogystal ag astudio’r ddamcaniaeth, bydd gennych hefyd fantais ychwanegol o leoliad gwaith gorfodol o fewn y sector am un diwrnod yr wythnos fel arfer o’r ail dymor, ac mae hyn yn caniatáu ichi roi’r ddamcaniaeth ar waith. Mae ystod eang o weithwyr proffesiynol sy’n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant ar hyn o bryd yn rhoi cipolwg ar weithio yn y sectorau pan fyddant yn ymweld â’r coleg i roi sgyrsiau pan fyddwch yn cael cyfle i ofyn cwestiynau iddynt. Bydd ymweliadau gorfodol hefyd â’r Senedd ac â lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae cyfle hefyd i gymryd rhan mewn cystadlaethau sgiliau.

## Asesiad

Defnyddir amrywiaeth o ddulliau addysgu ac asesu, gan gynnwys, astudiaethau achos, arholiadau allanol a phrofion amlddewis, cyflwyniadau, a bydd gofyn i chi weithio’n annibynnol i wneud ymchwil helaeth ar gyfer rhai o’ch asesiadau.

## Costau Ychwanegol

• Gwiriad DBS – £40.00 (yn amodol ar newid) i’w dalu wrth gofrestru.• Costau Gwisg ar gyfer lleoliad gwaith (£20.00-£30.00)• Teithiau addysgol gorfodol (£50.00) i’w talu wrth gofrestru.

### DULL ASTUDIO

FT

### LLEOLIAD

Coleg Bannau Brycheiniog - 0330 818 8100

### HYD Y CWRS

Blwyddyn